Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# ‘Rho Gynnig Arni’ – cynllun mentora a hyfforddiant i fagu hyder siaradwyr Cymraeg

Mawrth 2024

## Cefndir

Roedd Coleg y Cymoedd yn awyddus i gynyddu’r nifer o staff oedd yn defnyddio’r Gymraeg wrth eu gwaith. Daeth i sylw Rheolwr y Gymraeg bod nifer o staff wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn siaradwyr Cymraeg er nad oeddynt yn ei defnyddio wrth eu gwaith. Penderfynodd y Coleg ddatblygu cynllun er mwyn annog siaradwyr Cymraeg o fewn gweithle’r Coleg i ddefnyddio mwy o’r Gymraeg wrth eu gwaith.

## Beth wnaeth ysgogi chi i ddatblygu’r cynllun?

Daeth i’r amlwg bod diffyg hyder ymysg staff oedd yn siaradwyr Cymraeg, a bod hynny’n rhannol o ganlyniad i diffyg cyfleoedd iddynt ymarfer a defnyddio eu sgiliau Cymraeg. Nodwyd hefyd bod sawl aelod o staff yn hapus i ddefnyddio’r Gymraeg ar lafar ond nad oeddent mor hyderus wrth ysgrifennu yn Gymraeg. Mynegodd staff nad oedd ganddynt ddigon o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o reolau gramadegol yr iaith. Roedd nifer ohonynt dan yr argraff nad oedd eu Cymraeg yn ddigon da i’w defnyddio’n broffesiynol.

## Beth yw’r cynllun mentora ‘Rho Gynnig Arni’?

Lansiwyd y cynllun hyfforddiant mentora ‘Rho Gynnig Arni’ yn 2019. Mae Rheolwr y Gymraeg yn ymgymryd â’r rôl fentora i diwtora staff sydd eisoes yn medru’r Gymraeg er mwyn gwella eu sgiliau a’u hyder i ddefnyddio’r Gymraeg wrth eu gwaith.

Mae’r mentor yn cynnal sesiynau 1 i 1 â staff sy’n cynnig cyfle i:

- Ymarfer ysgrifennu a siarad Cymraeg
- Cwblhau ymarferion iaith/gramadeg
- Cael ateb i gwestiynau am yr iaith

- Cael adborth ar waith ysgrifenedig a llafar a chyfle i brawfddarllen a golygu dogfennau sydd wedi eu drafftio yn Gymraeg (megis ebost, llythyrau a chyflwyniadau PowerPoint).

Bydd Rheolwr y Gymraeg yn cwrdd ag aelodau o staff sy’n rhan o’r cynllun yn dymhorol neu bob hanner tymor (yn ddibynnol ar yr anghenion unigol) er mwyn trafod cynnydd staff ac unrhyw anghenion hyfforddi pellach.

## Sut aethoch chi ati i roi’r cynllun ar waith?

Lansiwyd ymgyrch i hyrwyddo ar gyfer y cynllun mentora drwy e-bost, neges Teams, a phosteri ar sgriniau bob campws. Mae’r Coleg yn cynnal arolwg o sgiliau ieithyddol y gweithlu yn flynyddol. Penderfynwyd targedu y staff hynny oedd wedi a fod ganddynt sgiliau Cymraeg Lefel 3 i Lefel 5.

Unwaith roedd digon o staff wedi mynegi diddordeb, cysylltodd Rheolwr y Gymraeg â rheolwr llinell pob aelod o staff er mwyn derbyn eu caniatâd iddynt gael mynychu sesiynau. Cytunwyd gyda’r adran adnoddau dynol y gall y staff gofnodi amser y sesiynau fel oriau datblygiad proffesiynol. Byddai Rheolwr y Gymraeg yn trafod gyda’r aelod staff a’r rheolwr llinell er mwyn trefnu amser oedd yn gyfleus ar gyfer cynnal y sesiynau. Rhai adegau roedd angen i'r Rheolwr Llinell drefnu amser rhydd i'r aelod o staff gael mynychu.

Gwnaed asesiad o sgiliau ieithyddol yr aelod o staff a pharatoi adnoddau iaith pwrpasol ar sail yr anghenion oedd wedi eu hadnabod (e.e. ffocws ar y treiglad meddal / modd dibynnol ayb).

## Beth oedd canlyniad y cynllun?

Gwelwyd bod y staff hynny fu’n rhan o’r cynllun yn defnyddio mwy o Gymraeg a bod hynny wedi ysgogi mwy o ddefnydd o’r Gymraeg yn gyffredinol ar draws y Coleg. Gwelwyd bod staff yn fwy hyderus wrth ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol ac wrth ymgymryd â dyletswyddau gwaith. Nodwyd bod pawb fu’n rhan o'r cynllun yn hyderus i roi cynnig ar lunio dogfennau dwyieithog. Yn ogystal gwelwyd bod yr iaith a ddefnyddir gan staff yn ysgrifenedig ac ar lafar wedi gwella o ran ansawdd a chywirdeb. Mantais arall oedd bod staff yn mwynhau cael defnyddio’r Gymraeg gyda’i gilydd a phob un yn edrych ymlaen at y sesiynau gyda Rheolwr y Gymraeg.

Mae yna fanteision ariannol i’w gweld hefyd gan fod staff yn barod i ddrafftio testun yn Gymraeg neu’n ddwyieithog, sydd yn golygu llai o gostau ac amser i gyfieithu.

## Pa gyngor fyddech chi’n ei gynnig i sefydliad sydd yn awyddus i roi tro ar gynllun i fentora ac annog staff i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth eu gwaith?

Mae angen sicrhau bod tiwtor iaith profiadol yn arwain y cynllun sydd â'r gallu a'r arbenigedd i addasu'r sesiynau er mwyn diwallu anghenion amrywiol yr aelodau staff. Mae cael cydsyniad y rheolwr llinell yn allweddol bwysig er mwyn hwyluso'r trefniadau heb amharu ar amserlenni a llwyth gwaith yn ormodol.


## Manylion cyswllt

| | |
|---|---|
| Sefydliad: | Coleg y Cymoedd |
| E-bost: | Lois.roberts@cymoedd.ac.uk |
| Swyddog cyswllt: | Lois Roberts, Rheolwr y Gymraeg |


## Barn Comisiynydd y Gymraeg

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050, yn sôn am y gweithle fel gofod allweddol ar gyfer cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n datgan bod y gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ac yn bwysig o ran datblygiad ieithyddol unigolion, gan ei fod yn gyfle i siaradwyr ar bob lefel ddefnyddio ac ymarfer yr iaith.

Rwy'n ymwybodol bod llawer o bobl yn derbyn addysg Gymraeg, ond nad ydynt yn defnyddio'r iaith ar ôl gadael addysg. Mae'r gweithle'n felly yn le delfrydol i unigolion ymarfer a defnyddio eu sgiliau Cymraeg gan roi cyfleoedd iddynt ddefnyddio'r iaith yn broffesiynol ac yn anffurfiol.

Rwy'n awyddus, yn ystod fy nghyfnod fel Comisiynydd y Gymraeg, i weld ymdrech benodol gan sefydliadau i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac rwy'n croesawu ymdrechion rhagweithiol fel y cynllun "Rho Gynnig Arni" gan Goleg y Cymoedd. Mae'r cynllun hwn yn dangos ymrwymiad clir gan y Coleg i annog a chefnogi ei staff i ddatblygu, gwella a mireinio eu sgiliau Cymraeg. Yr wyf o'r farn bod sawl elfen drosglwyddadwy i'r cynllun ac y gall sefydliadau eraill roi tro ar gynnig cynllun tebyg i'w gweithlu hwy er mwyn gweld cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ymysg staff.